# YGG Cwmllynfell
# Pupil Development Grant (PDG) Strategy Statement

*This statement details our school's use of the PDG for the 2026 to 2027 academic year.*

*It outlines our strategy, how we intend to spend the funding in this academic year and the effect that last year's spending had within our school.*

### *School Overview*

| | |
|---|---|
| Number of pupils in school | 57 (Nursery to Year 6)<br>(PLASC September 2026) |
| Proportion (%) of PDG eligible pupils | 26% (PLASC September 2026) |
| Date this statement was published | September 2026 |
| Date on which it will be reviewed | September 2027 |
| Statement authorised by | Mr Alun Sterl (Pennaeth / *Headteacher*) |
| PDG Lead | Mr Alun Sterl |
| Governor Lead | Ms Catrin Gibala (Cadeirydd y Llywodraethwyr / *Chair of Governors*) |

### Funding Overview

| **Detail** | **Amount** |
|---|---|
| PDG funding allocation this academic year | £9,200 |
| Early Years PDG funding allocation this academic year | £5,750 |
| **Total budget for this academic year** | **£14,950** |

## Part A: Strategy Plan

***Statement of Intent***

Mae hapusrwydd y plentyn yn allweddol i'w ddatblygiad ac yn ganolig i'n gweledigaeth. Ein bwriad yw darparu awyrgylch croesawgar, gofalgar, cynhwysol ac ysgogol, lle y bydd ein dysgwyr yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo'n hapus a diogel. Er mwyn datblygu pob disgybl i fod yn unigolion cyflawn, rydym yn ymrwymedig i feithrin gonestrwydd, cwrteisi a pharch at eraill.

Sicrhawn fod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cefnogi a datblygu ein disgyblion ar hyd eu llwybr addysgol a thu hwnt. Wrth deithio drwy'r ysgol, anogir pob disgybl i wneud ei orau glas, cyrraedd ei botensial a llwyddo mewn cymdeithas ddwyieithog. Anelwn at sicrhau fod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog, ac yn dangos cariad at wlad, iaith a threftadaeth.

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer llwyddiant, anelwn at greu cwricwlwm eang, cytbwys a chyffrous sy'n cael ei danategu gan ein gweledigaeth a'n hethos.

"**Dysgwyr da, dyfodol disglair**"

Y gobaith yw y bydd ein defnydd arfaethedig o'r Grant Datblygu Disgyblion yn cefnogi ein nodau i fod yn gynhwysol i bob disgybl drwy gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Rydym yn bwriadu darparu cymorth wedi'i dargedu yn y meysydd canlynol:

- Datblygu dysgu ac addysgu er mwyn datblygu dysgwyr annibynnol, ehangu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored a gwella medrau cyfannol disgyblion.

- Datblygu rhuglder mathemategol a rhifedd disgyblion gan gyflwyno ac archwilio cysyniadau gan ddefnyddio'r dull diriaethol, gweledol a haniaethol tu fewn a thu allan i'r ystafell dosbarth.

- Datblygu medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn darllen gyda chywirdeb, rhuglder, dealltwriaeth a mwynhad cynyddol, gan wneud cynnydd cryf o'u man cychwyn a chymhwyso eu medrau'n effeithiol ar draws y cwricwlwm.

*The child's happiness is key to his / her development and underpins our vision. Our intention is to provide a welcoming, caring, inclusive and stimulating environment, where our learners are valued and feel happy and safe. To develop our pupils as balanced individuals, we are committed to nurturing honesty, respect and courtesy towards others.*

*We ensure that every aspect of school life supports and develops our pupils on their educational journey and beyond. As they progress through the school, all pupils are encouraged to do their very best, fulfil their potential and succeed in a bilingual society. We aim to ensure that all pupils are completely bilingual and display a love of their country, language and heritage.*

*To achieve our vision for success, we aim to create a broad, balanced and exciting curriculum that is underpinned by our vision and ethos*

***"Dysgwyr da, dyfodol disglair"***

*Our planned use of the Pupil Development Grant will hopefully support our aims to be inclusive for all children by increasing opportunities for pupils who are eligible for free school meals. We plan to provide targeted support in the following areas:*

- *To develop teaching and learning in order to develop independent learners, expand outdoor learning opportunities and improve pupils' integral skills.*
- *Develop pupils' fluency in mathematics and numeracy by introducing and exploring concepts using the concrete, visual and abstract approach both inside and outside the classroom.*
- *To develop pupils' reading skills across the school to ensure that they read with increasing accuracy, fluency, understanding and enjoyment, making strong progress from their starting point and applying their skills effectively across the curriculum.*

*Intended Outcomes*

This explains the outcomes we are aiming for **by the end of our current strategy plan**, and how we will measure whether they have been achieved.

| Intended outcome | Success criteria |
|---|---|
| **Datblygu dysgu ac addysgu er mwyn datblygu dysgwyr annibynnol, ehangu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored a gwella medrau cyfannol disgyblion.**<br><br>Mae angen darparu cyfleoedd i ddisgyblion dysgu yn yr awyr agored yn gyson ar draws y cwricwlwm. Bydd cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth mewn cyd-destunau dilys yn cefnogi ymgysylltiad, llesiant a dilyniant.<br><br>Wrth gryfhau datblygiad medrau cyfannol disgyblion, gan gynnwys creadigrwydd, datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu bydd yn cefnogi gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru o ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog, mentrus a chreadigol, moesegol a gwybodus, ac iach a hyderus.<br><br>Drwy fireinio arferion addysgu a chynllunio cyfleoedd pwrpasol ar gyfer dysgu annibynnol, bydd disgyblion yn datblygu medrau, a gwybodaeth sy'n eu galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a gwneud cynnydd cryfach ar draws y cwricwlwm. | Defnydd effeithiol o gynllunio pwrpasol sy’n datblygu dysgwyr annibynnol, dysgu yn yr awyr agored a gwella medrau cyfannol y disgyblion.<br><br>Bydd athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud dewisiadau, datrys problemau ac arwain agweddau o'u dysgu.<br><br>Bydd disgyblion yn dangos mwy o annibyniaeth wrth gynllunio, rheoli a gwerthuso eu dysgu.<br><br>Bydd dysgu yn yr awyr agored wedi'i gynllunio'n fwriadol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.<br><br>Bydd disgyblion yn gallu trosglwyddo a chymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys yr amgylchedd awyr agored.<br><br>Bydd athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir ar gyfer eu gwersi, yn unol a meini prawf llwyddiant sy’n galluogi’r disgyblion i wneud cynnydd effeithiol.<br><br>Bydd athrawon yn defnyddio strategaethau Asesu mewn Dysgu i sicrhau cynnydd disgyblion o ran eu gwybodaeth a dealltwriaeth.<br><br>Bydd disgyblion yn asesu gwaith eu hunain a’u chyfoedion, gan nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu (y camau nesaf).<br><br>Bydd yr athrawon yn medru addasu darpariaeth eu hunain yn seiliedig ar anghenion dysgwyr, o ran gwneud cynnydd effeithiol ar draws y cwricwlwm.<br><br>Bydd tystiolaeth o gynnydd mewn medrau cyfannol megis creadigrwydd, datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu.<br><br>Bydd llais y disgybl yn dangos bod disgyblion yn teimlo'n fwy hyderus i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac yn gallu egluro sut mae eu dysgu yn datblygu.<br><br>Bydd y disgyblion yn cyflawni cynnydd effeithiol yn eu medrau a dysgu annibynnol. |

| | |
|---|---|
| ***To develop teaching and learning in order to develop independent learners, expand outdoor learning opportunities and improve pupils' integral skills.***<br><br>*Pupils need to be provided with opportunities to learn outdoors consistently across the curriculum. Regular opportunities to apply their knowledge, skills and understanding in authentic contexts will support engagement, wellbeing and progression.*<br><br>*Strengthening pupils' integral skills development, including creativity, problem-solving, personal effectiveness and planning and organising will support the Curriculum for Wales vision of developing ambitious and capable, enterprising and creative, ethical and knowledgeable, and healthy and confident pupils.*<br><br>*By refining teaching practices and planning bespoke opportunities for independent learning, pupils will develop skills and knowledge that enable them to take greater responsibility for their learning and make stronger progress across the curriculum.* | *Teachers will provide regular opportunities for pupils to make choices, solve problems and guide aspects of their learning.*<br><br>*Pupils will show greater independence in planning, managing and evaluating their learning.*<br><br>*Outdoor learning will be planned purposefully across all areas of learning and experience.*<br><br>*Pupils will be able to transfer and apply their skills in a variety of contexts including the outdoor environment.*<br><br>*Teachers will share clear learning objectives for their lessons, in line with success criteria that enable pupils to make effective progress.*<br><br>*Teachers will use Assessment in Learning strategies to ensure pupils progress in their knowledge and understanding.*<br><br>*Pupils will assess the work of themselves and their peers, identifying strengths and areas for development (next steps).*<br><br>*Teachers will be able to adapt provision themselves based on learners' needs, in terms of making effective progress across the curriculum.*<br><br>*There will be evidence of progress in integral skills such as creativity, problem-solving, personal effectiveness and planning and organisation.*<br><br>*The pupil's voice will show that pupils feel more confident to take responsibility for their learning and can explain how their learning is developing.*<br><br>*The pupils will achieve effective progress in their skills and independent learning.* |

| | |
|---|---|
| **Datblygu rhuglder mathemategol a rhifedd disgyblion gan gyflwyno ac archwilio cysyniadau gan ddefnyddio'r dull diriaethol, gweledol a haniaethol (DGH) tu fewn a thu allan i'r ystafell dosbarth.**<br><br>Mae datblygu medrau mathemateg a rhifedd disgyblion yn flaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru ac yn YGG Cwmllynfell.<br><br>Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn derbyn cyfleoedd i gymhwyso eu gwybodaeth flaenorol a'u medrau rhif, algebra, geometreg ac ystadegau yn ystod gwersi Mathemateg.<br><br>Mae angen datblygu rhuglder mewn gwaith rhif disgyblion wrth gymhwyso eu dysgu ar draws gwahanol gyd-destunau ac wrth drosglwyddo eu medrau rhifedd yn hyderus ac yn bwrpasol i feysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.<br><br>Er mwyn datblygu rhuglder a dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach mewn mathemateg, mae angen datblygu'r defnydd o adnoddau diriaethol yn gyson yn ystod tasgau mathemateg er mwyn esbonio eu rhesymu mathemategol.<br><br>Er mwyn cefnogi cynnydd parhaus disgyblion yn unol â disgwyliadau'r Fframwaith Rhifedd a Cwricwlwm i Gymru, mae angen sicrhau bod cysyniadau mathemategol yn cael eu haddysgu drwy'r dull Diriaethol, Gweledol a Haniaethol (DGH), gan ddarparu cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso medrau rhifedd ar | Bydd adnoddau diriaethol ar gael ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu Mathemateg.<br><br>Bydd disgyblion yn dangos gwell rhuglder mewn gwaith rhif sy'n briodol i'w cam cynnydd.<br><br>Bydd deunyddiau a dulliau cyflwyno wedi'u haddasu a'u gwahaniaethu'n briodol.<br><br>Bydd disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwy hyderus mewn cyd-destunau newydd ac ar draws y cwricwlwm.<br><br>Bydd darpariaeth cynhwysol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan, ar gyfer datblygu medrau Mathemateg a Rhifedd pob disgybl.<br><br>Bydd disgyblion yn symud yn llwyddiannus rhwng cynrychioliadau diriaethol, gweledol a haniaethol wrth ddatrys problemau mathemategol.<br><br>Bydd athrawon yn deall ac yn gweithredu datblygiad dealltwriaeth gysyniadol trwy ddulliau llafar, diriaethol, gweledol, digidol ac haniaethol.<br><br>Bydd disgyblion yn adrodd bod adnoddau ac ymagweddau mathemategol yn eu helpu i ddeall cysyniadau newydd yn well.<br><br>Bydd disgyblion yn gallu esbonio eu strategaethau a'u rhesymu mathemategol yn fwy hyderus.<br><br>Bydd disgyblion yn defnyddio iaith fathemategol fanwl gywir i egluro eu meddwl.<br><br>Bydd disgyblion yn nodi strategaethau effeithlon ar gyfer cyfrifiadau.<br><br>Bydd athrawon yn addysgu mathemateg pen dyddiol i'r disgyblion er mwyn gwella eu medrau cyfrif, dysgu ffeithiau lluosi a bondiau rhif, defnyddio'r wybodaeth i wneud cysylltiadau yn eu bywydau go iawn, adnabod y perthynas rhwng y pedwar gweithred.<br><br>Bydd disgyblion yn defnyddio rhifau yn hyderus mewn ystod o gyd destunau. |

| | |
|---|---|
| draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau newydd.<br><br>***Develop pupils' fluency in mathematics and numeracy by introducing and exploring concepts using the concrete, visual and abstract approach both inside and outside the classroom.***<br><br>*Developing pupils' maths and numeracy skills is a national priority in Wales and at YGG Cwmllynfell.*<br><br>*Pupils across the school receive opportunities to apply their prior knowledge and numerical skills in algebra, geometry and statistics during Maths lessons.*<br><br>*There is a need to develop fluency in pupils' work in applying their learning across different contexts and in successfully transferring their numeracy skills confidently and purposefully to other areas of learning across the curriculum.*<br><br>*In order to develop fluency and a deeper conceptual understanding in mathematics, it is necessary to constantly develop the use of tangible resources during mathematics tasks in order to explain their mathematical reasoning.*<br><br>*To support pupils' continued progress in line with the expectations of the Numeracy Framework and Curriculum for Wales, it is necessary to ensure that mathematical concepts are taught through the Concrete, Visual and Abstract (CVA) approach, providing regular opportunities to apply numeracy* | *Tangible resources will be available and used effectively to support the learning of Mathematics.*<br><br>*Pupils will show better fluency in number work appropriate to their progression steps.*<br><br>*Materials and methods of presentation shall be appropriately adapted.*<br><br>*Pupils will apply their numeracy skills more confidently in new contexts and across the curriculum.*<br><br>*There will be inclusive provision both inside and outside of the classroom, for the development of all pupils' Mathematics and Numeracy skills.*<br><br>*Pupils will successfully move between concrete, visual and abstract representations when solving mathematical problems.*<br><br>*Teachers will understand and implement the development of conceptual understanding through verbal, concrete, visual, digital and abstract methods.*<br><br>*Pupils will report that mathematical resources and approaches help them better understand new concepts.*<br><br>*Pupils will be able to explain their mathematical strategies and reasoning more confidently.*<br><br>*Pupils will use precise mathematical language to explain their thinking.*<br><br>*Pupils will identify efficient strategies for calculations.*<br><br>*Teachers will teach the pupils daily mental maths in order to improve their counting skills, learn multiplication facts and number bonds, use their knowledge to make connections in their real lives and identify the relationship between the four mathematical procedures.*<br><br>*Pupils will confidently use numbers in a range of contexts.* |

| | |
|---|---|
| *skills across the curriculum and in new contexts.* | |
| **Datblygu medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn darllen gyda chywirdeb, rhuglder, dealltwriaeth a mwynhad cynyddol, gan wneud cynnydd cryf o'u man cychwyn a chymhwyso eu medrau'n effeithiol ar draws y cwricwlwm.**<br><br>Mae datblygu medrau darllen disgyblion yn flaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru ac yn YGG Cwmllynfell.<br><br>Mae sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn yn flaenoriaeth allweddol er mwyn eu galluogi i gael mynediad llawn at bob agwedd o'r cwricwlwm ac i wneud cynnydd yn eu dysgu. Yn unol â gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru a Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, mae angen i ddisgyblion ddatblygu'r gallu i ddarllen gyda chywirdeb, rhuglder, dealltwriaeth a mwynhad cynyddol.<br><br>Er mwyn gwella cynnydd disgyblion, mae angen cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer darllen drwy datblygu ein dull ysgol gyfan at ddarllen sy'n sicrhau dilyniant clir mewn medrau, cyfleoedd rheolaidd i ddarllen at amrywiaeth o bwrpasau ac ystod eang o brofiadau sy'n meithrin mwynhad a hyder fel darllenwyr. Bydd hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. | Bydd cyfleoedd cyson i gymhwyso sgiliau darllen ar draws y cwricwlwm ar lefel priodol i allu'r disgyblion.<br><br>Bydd deunyddiau a dulliau cyflwyno wedi'u haddasu a'u gwahaniaethu'n briodol.<br><br>Bydd darpariaeth cynhwysol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan, ar gyfer datblygu sgiliau darllen pob disgybl.<br><br>Bydd disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i ddatblygu a chymhwyso medrau darllen ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.<br><br>Bydd staff yn defnyddio dulliau cyson i addysgu ac asesu medrau darllen.<br><br>Bydd yr athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol gan ddefnyddio strategaethau addysgu diddorol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen. Defnyddio amrywiaeth o weithgareddau *Rhwng Dau Glawr* ac *Ein Llais Ni*.<br><br>Bydd sesiwn darllen dyddiol yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau darllen.<br><br>Bydd amgylchedd darllen gyfoethog yn yr ystafelloedd dosbarth.<br><br>Bydd llyfrgell yr ysgol yn cael i'w defnyddio'n effeithiol.<br><br>Bydd y disgyblion yn medru darllen ystod mwy eang o destunau yn rhugl ac yn gywir yn y ddwy iaith.<br><br>Bydd y disgyblion yn dangos annibyniaeth wrth ddarllen ac yn cymryd mantais o gyfleoedd i ddarllen yn yr ysgol ac yn y cartref.<br><br>Bydd llais y disgyblion yn dangos bod mwy o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn hyderus wrth drafod testunau.<br><br>Bydd dealltwriaeth y disgyblion wrth ddarllen testunau ffeithiol a ffuglen yn cynyddu.<br><br>Bydd y disgyblion trwy'r ysgol yn medru cyfrannu'n effeithiol yn ystod gweithgareddau darllen. |

| | |
|---|---|
| ***To develop pupils' reading skills across the school to ensure that they read with increasing accuracy, fluency, understanding and enjoyment, making strong progress from their starting point and applying their skills effectively across the curriculum.***<br><br>*Developing pupils' reading skills is a national priority in Wales and at YGG Cwmllynfell.*<br><br>*Ensuring pupils develop sound reading skills is a key priority to enable them to have full access to all aspects of the curriculum and to make progress in their learning. In line with the vision of Curriculum for Wales and the Welsh Government's National Literacy Framework, pupils need to develop the ability to read with increasing accuracy, fluency, understanding and enjoyment.*<br><br>*In order to improve pupils' progress, provision for reading needs to be strengthened by developing our whole-school approach to reading which ensures a clear progression in skills, regular opportunities to read for a variety of purposes and a wide range of experiences that build enjoyment and confidence as readers. This will support pupils to develop as ambitious and capable learners who are ready to learn throughout their lives.* | *There will be constant opportunities to apply reading skills across the curriculum at an appropriate level to pupils' ability.*<br><br>*Materials and methods of presentation will be appropriately adapted and distinguished.*<br><br>*There will be inclusive provision inside and outside of the classroom, for the development of all pupils' reading skills.*<br><br>*Pupils will have regular and bespoke opportunities to develop and apply their reading skills in all Areas of Learning and Experience.*<br><br>*Staff will use consistent methods to teach and assess reading skills.*<br><br>*The teachers will provide regular and effective opportunities using engaging teaching strategies to support pupils to develop their reading skills.*<br><br>*A daily reading session will include a variety of reading activities.*<br><br>*There will be a rich reading environment in the classrooms.*<br><br>*The school library will be used effectively.*<br><br>*Pupils will be able to read a wider range of texts fluently and correctly in both languages.*<br><br>*Pupils will show independence in reading and take advantage of opportunities to read at school and at home.*<br><br>*The pupils' voice will show that more pupils enjoy reading and are confident when discussing texts.*<br><br>*The pupils' understanding when reading non-fiction and fiction texts will increase.*<br><br>*Pupils throughout the school will be able to contribute effectively during reading activities.* |

**Activity in this academic year**

This details how we intend to spend our PDG **this academic year** to address the challenges listed above.

**PDG**

- ✓ Darparu dysgu proffesiynol i athrawon;
- ✓ Darparu dysgu proffesiynol i gynorthwywyr addysgu;
- ✓ Darparu ymyrraeth a chymorth penodol i ddisgyblion;
- ✓ Cyfrannu at ariannu cymorth ELSA;
- ✓ Prynu adnoddau ymyrraeth;
- ✓ Ariannu gweithgareddau oddi ar y safle, megis cyrsiau preswyl ac ymweliadau addysgol i deuluoedd sydd angen y cymorth;
- ✓ Caniatáu i ddisgyblion gael mynediad at ddarpariaeth gerddorol beripatetig i deuluoedd sydd angen y cymorth;
- ✓ Caniatáu i ddisgyblion gael mynediad i weithgareddau chwaraeon allgyrsiol i deuluoedd sydd angen y cymorth;

- ✓ *Professional learning for teachers;*
- ✓ *Professional learning for teaching assistants;*
- ✓ *Provide tailored, interventions and support for pupils;*
- ✓ *Contribute to funding ELSA support;*
- ✓ *Buying intervention resources;*
- ✓ *Fund off-site activities, such as residential courses and educational visits for families that require support;*
- ✓ *Allow pupils access to peripatetic music provision for families that require support;*
- ✓ *Allow pupils access to extracurricular sporting activities for families that require support;*

**PDG – Early Years**

- ✓ Cyfrannu at ariannu cymorth ELSA mewn dysgu Blynyddoedd Cynnar / Sylfaen;
- ✓ Ymyrraeth a chymorth mewn dysgu Blynyddoedd Cynnar / Sylfaen;
- ✓ Prynu adnoddau ymyrraeth;
- ✓ Prynu adnoddau chwarae i ddatblygu datblygiad corfforol;
- ✓ Prynu adnoddau er mwyn creu amgylchedd cyfoethog ar gyfer cyfathrebu tu fewn a thu allan i'r dosbarth;
- ✓ Ariannu gweithgareddau oddi ar y safle, fel ymweliadau addysgol i deuluoedd sydd angen y cymorth.

- ✓ *Contribute to funding ELSA support in Early Years / Foundation learning;*
- ✓ *Interventions and supports in Early Years / Foundation learning;*
- ✓ *Buying intervention resources;*
- ✓ *Buying play equipment to develop physical development;*
- ✓ *Buying resources to provide a communication rich environment indoor and outdoors;*
- ✓ *Fund off-site activities, such as educational visits for families that require support.*

**Teaching and Learning**

**Budgeted cost: £8,970**

| Activity | Evidence that supports this approach |
|---|---|
| Darparu cymorth iaith, llythrennedd a chyfathrebu i ddisgyblion a nodir trwy asesu a monitro, wrth ddarparu raglenni ymyrraeth penodol wedi ei dargedu.<br><br>*Provide language, literacy and communication support for pupils identified via assessment and monitoring, through providing specific and targeted intervention programmes.* | Mae medrau iaith disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol yn is nag yn y gorffennol. Bydd gweithgareddau ffoneg ac ymyraethau darllen yn cael effaith gadarnhaol ar wella darllen ac yn ei dro, bydd hyn yn effeithio ar feysydd eraill o iaith a llythrennedd e.e. ysgrifennu.<br><br>*Pupils begin school with lower language skills than in the past. Phonics activities and reading interventions will have a positive impact on improving reading and in turn, this will impact on other areas of language and literacy e.g. writing.* |
| Darparu cymorth mathemateg a rhifedd i ddisgyblion a nodir trwy asesu a monitro, wrth ddarparu raglenni ymyrraeth penodol wedi ei dargedu.<br><br>*Provide Mathematic and Numeracy support for pupils identified via assessment and monitoring, through providing specific and targeted intervention programmes.* | Bydd ymyraethau mathemateg a rhifedd yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau rhif ac yn ei dro, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar feysydd eraill o Fathemateg a Rhifedd.<br><br>*Mathematics and Numeracy interventions will have a positive impact on improving number skills and in turn, this will have a positive impact on other areas of Mathematics and Numeracy.* |

**Wider strategies**

**Budgeted cost: £5,980**

| Activity | Evidence that supports this approach |
| --- | --- |
| Ariannu cynorthwywyr addysgu yn rhannol i ddarparu cymorth ELSA a chymorth iechyd a lles, fel therapi chwarae, cylchedau synhwyraidd a gweithgareddau maethu.<br><br>*Partially fund teaching assistants to provide ELSA support and health and wellbeing support, such as play therapy, sensory circuits and nurture activities.* | Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn hyfforddi ELSA. Ers hynny rydym wedi gweld agweddau gwell at ddysgu ac mae disgyblion yn fwy hyderus yn emosiynol. Mae lles disgyblion wedi gwella'n sylweddol ers cyflwyno ELSA.<br><br>*The school has invested in training an ELSAs. We have since seen improved attitudes to learning and pupils are more emotionally confident. Pupil wellbeing has improved significantly since the introduction of ELSAs.* |
| Cymorth ariannol i ddisgyblion PYDd a theuluoedd difreintiedig nad ydynt yn cael PYDd i gael mynediad at ymweliadau addysgol, cyrsiau preswyl a gwersi cerddoriaeth, gweithgareddau chwaraeon, gan gyfoethogi ac ehangu eu profiadau dysgu.<br><br>*Financial support for FSM pupils and non FSM disadvantaged families to access educational visits, residential courses and music lessons, sports activities, hence enriching and widening their learning experiences.* | Mae hunan arfarniad ysgol, yn ogystal â holiaduron rhieni a disgyblion yn amlygu pwysigrwydd ymweliadau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol. Mae gweithgareddau o'r fath wedi helpu i ddatblygu hyder y disgyblion ac ehangu profiadau a chyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu medrau newydd. Mae disgyblion wedi gallu cael mynediad at brofiadau na fyddai wedi bod ar gael iddynt fel arfer.<br><br>*School self-evaluation, as well as parental and pupil questionnaires highlight the importance of educational visits and extra-curricular activities. Such activities have helped to develop the pupils' confidence and widen experiences and opportunities to develop relationships and learn new skills. Pupils have been able to access experiences that would have normally been unavailable to them.* |

**Total budgeted cost: £14,950**

## Part B: Review of outcomes in the previous academic year

### *PDG outcomes*

Mae hwn yn manylu ar yr effaith a gafodd ein gweithgaredd GDD ar ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Defnyddiwyd Grant Datblygu Disgyblion y llynedd i ganiatáu i ddisgyblion fynychu ymweliadau ysgol oddi ar y safle ac ariannwyd disgyblion i fynychu cyrsiau preswyl yn Gwersyll Yr Urdd Glanllyn (Gogledd Cymru) a Gwersyll Yr Urdd Llangrannog (Gorllewin Cymru). Roedd hefyd yn galluogi disgyblion i gael mynediad at ddarpariaeth gerddorol beripatetig.

Yn ogystal, roedd y cyllid yn ein galluogi i ryddhau staff i dderbyn hyfforddiant ar gyfer rhaglenni ymyrraeth penodol er mwyn cefnogi'r disgyblion yn eu tasgau dysgu.

*This details the impact that our PDG activity had on pupils in the 2025 to 2026 academic year.*

*The Pupil Development Grant last year was used to allow pupils to attend off site school visits and funded pupils to attend residential courses in Gwersyll Yr Urdd Glanllyn (North Wales) and Gwersyll Yr Urdd Llangrannog (West Wales). It also enabled pupils to access peripatetic music provision.*

*In addition, the funding allowed us to release staff to receive training for specific intervention programmes to support pupils in their learning tasks.*